



Y Cynnig Cymraeg / The Welsh Offer



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Pam cynnig gwasanaethau Cymraeg?

“Rydym yn ymfalchio mewn cael gwasanaethau Cymraeg ar gael i’n cwsmeriaid sy’n siarad Cymraeg ac mae’r wobwr yma’n cydnabod y Gwaith ry’n ni wedi ei wneud mewn nifer o feysydd i sicrhau, ble’n bosib, gallwn gyfathrebu a siarad gyda chwsmeriaid yn Gymraeg a chynnig gwasanaethau Cymraeg”

Harri Jones, Principality.



94%

o siaradwyr Cymraeg yn teimlo bod darparu gwasanaethau Cymraeg yn helpu cwmni greu argraff dda

75%

o siaradwyr Cymraeg yn credu dylai elusennau weithio'n ddwyieithog yng Nghymru

86%

o boblogaeth Cymru'n teimlo fod y Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchio ynddi

Beth mae'r Cynnig Cymraeg yn golygu?



Gweithiwch gyda thîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg i gynllunio'r gwasanaeth Cymraeg gorau posib

Dathlwch yr hyn chi'n ei wneud yn barod, ac ymrwymwch i barhau a datblygu eich defnydd o'r Gymraeg fel cwmni

Byddwch yn rhan o ymgyrch ehangach gyda manwerthwyr, banciau, elusennau a chwmnïau sy'n rhan o'r ymgyrch



Sut mae'n gweithio?



1. Aseu eich defnydd o'r Gymraeg ar hyn o bryd gan ddefnyddio teclyn hunan-asesu ar-lein y Comisiynydd



2. Derbydd lefel ar gyfer bob elfen – o arwyddion, i diliau hunanwasanaeth, staff a marchnata

3. Gweithiwch gyda ni i
adnabod eich Cynnig
Cymraeg: beth yw'r prif 5/6
beth chi'n eu cynnig i'ch
cwsmeriaid?



Esiamplau




Dyma yw ein Cynnig Cymraeg:

1. Bydd modd adnabod siaradwyr Cymraeg yn ein siopau yng Nghymru am eu bod yn gwisgo logo iaith Gwaith – sef logo a ddefnyddir i ddynodi siaradwyr rhugl neu ddysgwyr.
2. Presenoldeb amlycach o'r Gymraeg yn ein siopau i gwsmeriaid a chydweithwyr. Bydd hyn yn cynnwys arwyddion, deunydd hyrwyddo.
3. Caiff Parth Arian, ein rhaglen addysg ariannol am ddim i ysgolion a grwpiau ieuencid, ei chyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn dibynnu ar iaith ddewisol y grŵp.
4. Os wnewch chi ysgrifennu atom ni yn y Gymraeg, byddwn yn ymateb yn y Gymraeg.
5. Mae ein siopau Cymraeg yn ymddwyn fel canolfan i'r gymuned leol, ac yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio busnes a byddwn yn dathlu diwylliant a thraddodiadau Cymru (e.e. Dydd Gŵyl Dewi). Bydd y digwyddiadau hyn yn croesawu'r sawl sy'n siarad Cymraeg a Saesneg yn ein siopau.
6. Byddwn yn rhoi'r cyfle i'n cydweithwyr ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg.

Esiamplau



- **Ein canghennau yng Nghymru** - Mae gennym ganghennau drwy gydol Cymru a changhennau uchwanegol mewn rhai prifysgolion yng Nghymru. [Chwilio am gangen](#)
- **Canolfannau busnes corfforaethol a masnachol yng Nghymru** - Mae gennym 2 ganolfan busnes yng Nghymru wedi'u lleoli yng Nghaerdydd ac Abertawe. Mae ein tîm lleol o Gyfarwyddwyr Perthynas a Phartneriaid Credyd yn gweithio gyda busnesau bach a chanolig ledled Cymru, gan adeiladu perthnasau tymor hir ac yn darparu atebion wedi'u teilwra sy'n diwallu eu [hanghenion bancio masnachol](#).
- **Staff sy'n siarad Cymraeg** - Rydym yn recriwtio o'r cymunedau yr ydym yn gweithredu ynddynt, ac mae gennym lawer o gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn ein canghennau ledled Cymru. Rydym yn annog cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg i helpu cwsmeriaid gyda'u hymholiadau bancio gan ddefnyddio eu dewis iaith, fel y byddent yn ei wneud yn eu bywyd bob dydd arferol. Mae pob un o'n cydweithwyr cangen sy'n siarad Cymraeg yn hawdd eu hadnabod gan y byddant yn gwisgo bathodyn oren cydnabyddedig a'r logo 'Iaith Gwaith' arno. 
- **Arwyddion yn ein canghennau** - Rydym wedi bod yn adnewyddu ein canghennau, yn cynnwys rhai yng Nghymru. Y newidiadau y gallwch ddisgwyl eu gweld yn cynnwys waliau croeso dwyieithog ac arwyddion tu fewn i'r canghennau. Byddwn yn dal ati gyda'n rhaglen adnewyddu ac felly byddwch yn gweld y newidiadau mewn rhagor o ganghennau yn y dyfodol.
- **Peiriannau codi arian** - Rydyn ni wedi gosod peiriannau codi arian sgrin gyffwrdd newydd yn ddiweddar, felly byddwch nawr yn gallu dewis yr iaith Gymraeg ar bob un o'n peiriannau codi arian yn y Deyrnas Unedig. Pan fyddwch chi wedi defnyddio eich cerdyn debyd neu gredyd unwaith a dewis Cymraeg fel eich iaith, bydd yn cael ei gofio ar gyfer trafodion yn y dyfodol. Os hoffech chi unrhyw help gyda hyn, yna siaradwch ag aelod o staff mewn cangen.

Esiampplau



Ein Cynnig Cymraeg

1. Byddwch yn gallu darllen ein gwybodaeth iechyd meddwl mwyaf poblogaidd yn Gymraeg a chyrraedd y cynnwys Cymraeg ar ein gwefan yn rhydd.
2. Byddwch yn gallu mynd at wasanaethau iechyd meddwl Cymru-gyfan Mind yn Gymraeg neu yn Saesneg. Fodd bynnag, efallai na fydd hynny'n bosibl bob tro ar lefel Mind lleol.
3. Bydd dewis cyfathrebu yn Gymraeg yn gam automatig hawdd i unrhyw un sy'n cysylltu â Mind, a byddwn yn cyfathrebu yn eich dewis iaith bob tro pan fydd hynny'n bosibl.
4. Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau a'n gwybodaeth yn dduyieithog ac yn sicrhau bod profiadau iechyd meddwl siaradwyr Cymraeg yn cael eu hadlewyrchu yn ein deunydd marchnata.
5. Byddwn yn cefnogi ac yn annog Cymraeg yn ein gweithle trwy recriutio'n rhagweithiol siaradwyr Cymraeg, darparu gwersi Cymraeg ar gyfer gweithwyr Mind Cymru ac annog defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn y gwaith.

Our Welsh Offer

1. You will be able to read our most popular mental health information in Welsh and easily navigate our Welsh language website content.
2. You will be able to access Mind Wales-wide mental health services in Welsh or English. However this may not always be possible at a local Mind level.
3. Choosing to communicate in Welsh will be an easy automatic step for anyone contacting Mind, and we will communicate in your preferred language wherever possible.
4. We will promote our services and information bilingually and ensure the mental health experiences of Welsh speakers are reflected in our marketing.
5. We will support and encourage Welsh in our workplace through proactively recruiting Welsh speakers, providing Welsh language lessons to Mind Cymru employees and encouraging the informal use of Welsh at work.



Esiampplau:

R4W

CYFATHREBIADAU

Cynhyrchir ein harwyddion, llythron a chynnwys pecyn ras yn ddwyieithog.

DIWRNOD Y DDIGWYDDIAD

Rydym yn darparu llwyfan i'r iaith Gymraeg ar ddiwrnod ein digwyddiadau trwy ddefnyddio arwyddion a sylwebaeth ddwyieithog. Rydym hefyd yn annog ein noddwr a'n partneriaid i ystyried yr iaith yn eu hymgyrchoedd.

RHIFAU RAS

Gall rhedwyr dewis i redeg gyda'r bathodyn 'Cymraeg' wedi'i phrintio ar eu rhif ras. Cynllun sy'n annog yr iaith i gael ei siarad yn naturiol rhwng rhedwyr, staff digwyddiadau a gwirfoddolwyr.

MARCHNATA DIGIDOL

Maegwefannau R4W a Hanner Marathon Caerdydd yn gwbl ddwyieithog. Ar wefannau ein digwyddiadau eraill mae tudalen penodol a gwybodaeth hanfodol yn y Gymraeg.



Derbyn cymeradwyaeth gan
y Comisiynydd am eich
Cynnig

Rhannu gyda'ch cwsmeriaid
a chydweithwyr

Bod yn falch bod eich
busnes yn defnyddio'r
Gymraeg



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner